

Cynllun Iaith Gymraeg

Cynllun Iaith Gymraeg a baratowyd yn unol â Chanllawiau Comisiynydd y Gymraeg dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Mae ateb wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gyflawni busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd ateb yn gweithredu'r egwyddorion a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac yn nodi'r camau y mae ateb yn bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni nodau'r Ddeddf. Mae'r cynllun hwn hefyd yn cydnabod y darpariaethau sydd ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sef statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg. Dylid nodi y bydd y cynllun hwn yn cael ei ddisodli gan safonau dan Fesur y Gymraeg 2011 a bod ateb wedi ymrwymo i weithredu egwyddorion Mesur 2011.

1. Nod y cynllun

Mae ateb wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gyflawni busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

2. Amcanion

Galluogi pawb sy'n defnyddio gwasanaeth, neu sy'n trafod â'r Gymdeithas, i wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn unol â dewis personol yr unigolyn.

Sicrhau bod y gwasanaethau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn wasanaethau o safon uchel.

Mae ateb yn cydnabod bod aelodau'r cyhoedd yn gallu mynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith. Mae hefyd yn cydnabod mai mater o arfer da yn hytrach na chonsesiwn yw galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac y gallai gwrthod yr hawl iddynt ddefnyddio eu dewis iaith olygu eu bod dan anfantais. Felly, bydd yn cynnig i aelodau'r cyhoedd yr hawl i ddewis pa iaith yr hoffent ei defnyddio wrth ymwneud â'r Gymdeithas, yn unol â'r egwyddor uchod.

3. Cyflwyniad

Cefndir a gwerthoedd corfforaethol

Mae ateb yn Gymdeithas Gydweithredol ac yn Gymdeithas Budd Cymunedol. Cafodd ei sefydlu yn 1981 fel Gymdeithas Tai Sir Benfro. Diben ateb yw creu atebion gwell o ran byw i bobl a chymunedau'r gorllewin, ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â'r sector statudol a'r sector gwirfoddol i gyflawni hynny.

Strwythur ac ardal weithredu

Mae'r Bwrdd Rheoli yn cynnwys aelodau gwirfoddol a gaiff gydnabyddiaeth ariannol dan Weithred Gytuno ar gyfer Gwasanaethau. Mae'r tîm o staff yn weithwyr cyflogedig a arweinir gan y Prif Weithredwr. Ar hyn o bryd, mae ateb yn rheoli dros 3,000 o gartrefi ac mae ganddo raglen ddatblygu barhaus i ddarparu cartrefi fforddiadwy ychwanegol er mwyn ymateb i anghenion a nodwyd o ran tai.

Mae cartrefi ateb mewn ardaloedd sy'n ymestyn o Dyddewi yng ngogledd-orllewin y sir i Saundersfoot yn y de-ddwyrain. Mae mwyafrif

cartrefi ateb yn y prif ardaloedd trefol, sef Hwlfordd, Aberdaugleddau, Penfro a Doc Penfro. Mae datblygiadau llai i'w cael mewn pentrefi gwledig, ac mae rhai cartrefi unigol i'w cael hefyd.

Defnyddwyr gwasanaeth

Ein tenantiaid a'r sawl sy'n chwilio am gartref yw ein defnyddwyr gwasanaeth yn bennaf. Rôl cymdeithasau tai yw darparu llety i'r sawl sydd â'r lleiaf o allu i gael gafael ar gartref yn y farchnad agored. Bydd gan lawer o'n defnyddwyr gwasanaeth swyddi â chyflogau isel neu byddant yn cael budd-daliadau.

Y Gymraeg

Yn ôl cyfrifiad 2011, mae 19.2% o boblogaeth Sir Benfro yn siarad Cymraeg. Mae'r ganran yn amrywio o 29% yn Nhyddewi i 10.5% yn Saundersfoot. O safbwynt y canolfannau trefol lle mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth o ran tai, mae 14.6% o boblogaeth Hwlfordd yn siarad Cymraeg, 8.9% o boblogaeth Aberdaugleddau, 10.6% o boblogaeth Penfro a 9.3% o boblogaeth Doc Penfro.

Ar draws y sir, y grŵp oedran lle cafodd y gyfran uchaf o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg ei chofnodi oedd y grŵp oedran 5-15 oed (43.6%). Mae arolwg defnydd o'r Gymraeg 2013 – 15, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, yn dangos gostyngiad o 1,400 yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl rhwng 2004 – 06 a 2013 – 15 (o 11,000 i 9,600) ac yn dangos cynnydd o 1,600 yn nifer y siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl (o 11,700 i 13,100). Bydd y Gymdeithas yn monitro'r defnydd y mae ei defnyddwyr gwasanaeth yn ei wneud o'r Gymraeg ac yn ceisio ymateb yn briodol.

Mae'r Gymdeithas wedi bod yn gweithredu Polisi Iaith Gymraeg ers nifer o flynyddoedd gan ymrwmo i ohebu â chwsmeriaid yn eu dewis iaith o fewn cyfnodau safonol y Gymdeithas ar gyfer ymateb, ac ymrwmo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn Gymraeg.

Bydd ateb yn ymdrechu i weithredu'n unol â gweledigaeth Comisiynydd y Gymraeg, sef "Cymru lle gall pobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau pob dydd".

Yr unigolyn cyswllt, os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y cynllun, yw:

Y Prif Weithredwr, ateb Group Ltd, Tŷ Meyler, St Thomas Green, Hwlfordd, Sir Benfro SA61 1QP

4. Cynllunio a chyflwyno gwasanaethau

Polisiâu a mentrau

Wrth lunio polisiâu a mentrau newydd, neu ddiwygio polisiâu, bydd y Gymdeithas yn asesu eu heffaith ieithyddol, yn sicrhau eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith hwn ac yn sicrhau bod y camau yn y cynllun hwn yn cael eu gweithredu pan fydd polisiâu a mentrau newydd yn cael eu gweithredu.

Bydd y Gymdeithas yn ymgynghori â'r Bwrdd ymlaen llaw ynghylch unrhyw gynig a fyddai'n effeithio yn uniongyrchol ar y Cynllun Iaith hwn. Ni fydd y cynllun hwn yn cael ei ddiwygio heb gytundeb y Bwrdd ymlaen llaw.

Byddwn yn sicrhau bod pwy bynnag sy'n ymwneud â'r gwaith o lunio polisiâu yn ymwybodol o'r cynllun ac o gyfrifoldebau'r Gymdeithas dan y Cod Rheoliadol a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Y ddarpariaeth o ran gwasanaethau

Byddwn yn sicrhau bod cynifer ag sy'n bosibl o'n gwasanaethau ar gael yn Gymraeg a byddwn yn hysbysu'r cyhoedd pan fyddant ar gael.

Bydd y Gymdeithas yn cyflawni'r ymrwymadau a nodir yn y cynllun drwy weithredu'r trefniadau canlynol:

- Mabwysiadu systemau neu weithdrefnau sy'n hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaeth yn newis iaith yr unigolyn sy'n cael y gwasanaeth;
- Codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith ymhlith staff y Gymdeithas;
- Ystyried yr angen i gynyddu'r graddau y mae sgiliau Cymraeg ar gael, drwy hyfforddi a recriwtio.

Gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd gan sefydliadau eraill

Swyddogaethau rheoleiddio a gwasanaethau trydydd parti

Bydd unrhyw gontractau neu drefniadau â thrydydd parti yn gyson ag adrannau perthnasol y cynllun hwn.

Partneriaethau

Pan fydd y Gymdeithas yn ymuno â phartneriaeth neu'n ffurfio partneriaeth, bydd yn gofyn i ddarpar bartneriaid am eu Cynlluniau

Iaith Gymraeg, eu polisïau iaith neu'r modd y byddant yn gweithredu'n ddwyieithog. Mewn unrhyw bartneriaeth, bydd y Gymdeithas yn cynnig cyngor a chymorth i'r sefydliadau partner eraill.

Bydd y Gymdeithas yn sicrhau bod ei swyddogion yn ymwybodol o ofynion y Cynllun Iaith wrth weithredu mewn partneriaeth.

Safonau ansawdd

Bydd y gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg yn gyfartal o ran eu hansawdd a byddant yn cael eu darparu o fewn yr un amserlen.

Bydd y Gymdeithas yn tynnu sylw at yr egwyddor ganolog hon mewn dogfennau allweddol megis adroddiadau blynyddol. Dylai'r egwyddor gael ei hamlinellu hefyd mewn sefyllfaoedd eraill lle caiff datganiadau eu gwneud am gyfle cyfartal a safon gwasanaeth.

5. Ymwneud ag aelodau'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

Gohebiaeth

Mae'r Gymdeithas yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.

Bydd y Gymdeithas yn ymdrin â phob gohebiaeth yn brydlon, ac ni ddylai gohebu trwy gyfrwng y Gymraeg arwain ynddo'i hun at unrhyw oedi. Mae ein targedau perfformiad ar gyfer ymateb i ohebiaeth yr un fath, waeth pa iaith a ddefnyddir.

Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn darparu ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).

Byddwn yn cadw cofnod o'r bobl sy'n dymuno ymwneud â'r Gymdeithas yn Gymraeg, er mwyn sicrhau eu bod yn cael negeseuon yn eu dewis iaith.

Byddwn yn cytuno ar drefniadau ar gyfer gohebu a chyfieithu.

Cyfathrebu dros y ffôn

Nifer gyfyngedig o aelodau dwyieithog o staff sydd gennym ar hyn o bryd, felly ni allwn ymdrin â phob galwad ffôn yn Gymraeg. Pan fydd aelodau'r cyhoedd yn ffonio ac yn dymuno siarad Cymraeg, byddwn yn ceisio eu cysylltu ag un o'n haelodau dwyieithog o staff, gan drefnu ein bod yn ffonio'r unigolyn yn ôl os oes raid. Bydd yr unigolyn hefyd yn cael cynnig cyfle i gyflwyno ymholiad yn Gymraeg drwy lythyr.

Bydd galwadau ffôn yn cael eu hateb gan ddefnyddio cyfarchiad dwyieithog.

Cyfarfodydd cyhoeddus

Pan fydd cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cynnal gan y Gymdeithas, gan gynnwys cynadleddau a digwyddiadau tebyg eraill, bydd croeso i'r sawl sy'n bresennol gyfrannu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Pan fydd siaradwyr Cymraeg ymhlith y sawl a gaiff eu gwahodd i fynychu, neu os gwyddys bod siaradwyr Cymraeg yn bwriadu bod yn bresennol, dylid trefnu cyfleusterau cyfieithu.

Cyfarfodydd eraill

Mae'r Gymdeithas yn croesawu cyfarfodydd â'r cyhoedd yn Gymraeg neu yn Saesneg, ond oherwydd prinder siaradwyr Cymraeg ni allwn warantu cyfarfod wyneb yn wyneb trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddwn yn esbonio'r sefyllfa yn gwrtais ac yn cynnig opsiynau eraill, er enghraifft yn cynnig trefnu cyfleusterau cyfieithu neu'n cynnig bwrw ymlaen â'r cyfarfod yn Saesneg.

Os bydd yn amlwg bod yna alw cyson am gyfarfodydd wyneb yn wyneb trwy gyfrwng y Gymraeg, a'n bod yn methu â bodloni'r galw hwnnw, byddwn yn ystyried cymryd camau gweithredu, er enghraifft hyfforddi staff neu benodi mwy o staff dwyieithog.

Cyfathrebu â'r cyhoedd mewn ffyrdd eraill

Byddwn yn ystyried y ffyrdd gorau o ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg ym mha ffordd bynnag y byddwn yn ymwneud â'r cyhoedd.

Mae'r Gymdeithas wedi ymrwymo i alluogi'r cyhoedd i ymwneud â ni yn Gymraeg drwy ddulliau cyfathrebu electronig, ar-lein a thrwy gyfryngau eraill.

Byddwn yn ystyried gofynion y cynllun hwn wrth ddarparu neu gynllunio systemau technoleg gwybodaeth newydd neu wrth ddarparu cyfryngau rhyngweithiol.

6. Wyneb cyhoeddus ateb

Hunaniaeth gorfforaethol

Mae'r Gymdeithas wedi mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog.

Arwyddion

Pan fyddwn yn adnewyddu neu'n ailgodi unrhyw arwyddion, byddwn yn sicrhau bod fersiynau newydd unrhyw arwyddion gwybodaeth yn hollol ddwyieithog. Bydd arwyddion gwybodaeth a godir am y tro cyntaf yn ddwyieithog. Bydd maint, safon eglurder ac amlygrwydd y geiriau ar yr arwyddion yn parhau'r egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol.

Cyhoeddi ac argraffu deunyddiau

Byddwn yn cynhyrchu ein dogfennau strategol allweddol neu'r dogfennau a anelir at y cyhoedd yn gyffredinol yn ddwyieithog. Bydd y Gymdeithas yn archwilio cyfleoedd i gydweithio â chyrrff eraill wrth gynhyrchu gwaith i'w cyhoeddi sydd yr un fath neu'n debyg.

Y wefan

Mae ein gwefan ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bydd dogfennau allweddol ar gael yn ddwyieithog ar ein gwefan.

Byddwn yn sicrhau bod unrhyw destun Cymraeg yn ein cyhoeddiadau o safon uchel a bod y dôn yn briodol i'r gynulleidfa darged.

Ffurflenni a deunydd esboniadol

Byddwn yn cynhyrchu ffurflenni dwyieithog pan fo hynny'n rhesymol ymarferol ac yn briodol dan yr amgylchiadau.

Datganiadau i'r wasg ac ymgyrchoedd marchnata

O ystyried natur ein cwsmeriaid a'r ardal ddaearyddol yr ydym yn darparu gwasanaethau ynddi, bydd datganiadau i'r wasg yn Saesneg fel rheol. Fodd bynnag, gallai fod yna amgylchiadau lle byddai defnyddio deunydd dwyieithog yn berthnasol. Byddwn yn ystyried pob achos yn unigol ac yn ymateb yn gadarnhaol fel y bo'n briodol.

Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio staff

Bydd ein hysbysiadau swyddogol a chyhoeddus yn ddwyieithog pan fo hynny'n briodol dan yr amgylchiadau. Byddant yn gyfartal o ran eu ffurf, eu maint, eu hansawdd, eu heglurder a'u hamlygrwydd.

Bydd ein hysbysebion recriwtio staff yn ddwyieithog ar gyfer swyddi lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol. Bydd pecynnau gwybodaeth, er enghraifft disgrifiadau swydd a manylebau person, yn cael eu paratoi yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer pob swydd lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol.

7. Gweithredu ac adolygu'r cynllun

Staffio

Bydd y Gymdeithas yn gwneud trefniadau i sicrhau, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, bod gweithleoedd sydd â chysylltiad â'r cyhoedd yn gallu cael gafael ar staff sydd â'r sgiliau Cymraeg priodol i alluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg. Bydd y graddau y bydd hynny'n angenrheidiol neu'n bosibl yn amrywio, yn dibynnu ar y gwasanaeth a'r ardal.

Er mwyn sicrhau bod gennym sgiliau Cymraeg priodol yn y manau cywir, byddwn yn dilyn y broses ganlynol:

- Byddwn yn nodi'r gweithleoedd a'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol.
- Byddwn yn cynnal archwiliad dilynol er mwyn cadarnhau o'r newydd nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg, ynghyd â lefel eu gallu a'u lleoliad.
- Bydd canlyniadau'r ddau ymarfer yn cael eu cymharu er mwyn adnabod gweithleoedd lle mae yna brinder staff sydd â sgiliau Cymraeg priodol.
- Byddwn yn ymateb i unrhyw ddiffyg sgiliau drwy ein gwaith recriwtio a hyfforddi. Wrth asesu ein hanghenion staffio, byddwn yn darparu ar gyfer cynnydd posibl yn y galw am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg wrth i gynlluniau gael eu gweithredu ac wrth i siaradwyr Cymraeg ymateb i'r cynnig i gael gwasanaeth yn Gymraeg.

Recriwtio

Pan fydd yn hanfodol i ymgeisydd fod â sgiliau Cymraeg, bydd hynny'n cael ei nodi'n glir yn adran gymwysterau'r swydd ac mewn hysbysebion. Byddwn hefyd yn nodi lefel y cymhwysedd sy'n angenrheidiol ar gyfer y swydd, er enghraifft "bod yn siaradwr Cymraeg rhugl".

Hyfforddiant o ran y Gymraeg

Byddwn yn cefnogi'r Cynllun Iaith hwn drwy annog a chynorthwyo aelodau o staff i ddysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau Cymraeg. Byddwn yn cynllunio ein rhaglen o hyfforddiant yn ofalus ac yn sianelu adnoddau i'r rhannau hynny o'n gwasanaeth lle'r ydym yn cyfathrebu â siaradwyr Cymraeg yn aml neu lle mae gofynion ieithyddol yn perthyn i'r swydd.

Trefniadau gweinyddol

Mae'r cynllun hwn wedi cael awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn y Gymdeithas. Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol yn gyffredinol am weithredu'r Cynllun Iaith, ac mae pob aelod o staff y Gymdeithas yn gyfrifol am wybod sut mae gweithredu'r cynllun yn effeithiol.

Bydd cyfarwyddwyr a rheolwyr yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith nhw.

Adolygu'r modd y caiff y cynllun ei weithredu

Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu'r cynllun hwn. Bydd monitro'r cynllun hwn yn weithgaredd parhaus a strwythuredig. Bydd yn cynnwys monitro'r meysydd canlynol:

- Y graddau y cydymffurfir â'r cynllun
- Ansawdd y gwasanaeth – ystyried cwynion a'r gwasanaeth rheng flaen
- Gwaith rheoli a gweinyddu
- Y graddau y mae sgiliau ieithyddol yn ddigonol.

Yn achlysurol, byddwn yn gofyn am farn siaradwyr Cymraeg am ystod a safon y gwasanaethau a ddarperir gan y Gymdeithas trwy gyfrwng y Gymraeg.

Byddwn yn defnyddio gweithdrefn gwyno safonol y Gymdeithas i gofnodi cwynion ac i ymdrin â chwynion am y cynllun hwn, a byddwn yn sicrhau bod modd monitro cwynion penodol am y cynllun.

Mae'r Gymdeithas yn croesawu ac yn cofnodi argymhellion ynghylch sut y gellid gwella'r gwasanaeth. Bydd y Prif Weithredwr yn adrodd wrth y Bwrdd Rheoli bob blwyddyn a bydd yn anfon copi o'r adroddiad at Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd yr adroddiad yn dilyn fformat a gytunwyd â'r Bwrdd, a bydd yn cynnwys gwybodaeth am natur unrhyw gwynion ac am unrhyw awgrymiadau ynghylch gwella a gafwyd gan y cyhoedd yng nghyswllt y cynllun.

Cyhoeddi gwybodaeth

Byddwn yn cynnwys datganiad yn ein hadroddiad blynyddol, sy'n nodi ble y gall aelodau'r cyhoedd gael copi o'n hadroddiad monitro blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg.

Cyhoeddu'rwydd

Byddwn yn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd sy'n ymwneud â'r Gymdeithas yn gwybod am y cynllun hwn a'i gynnwys, ac yn gwybod sut y gallant gyflawni eu busnes gyda'r Gymdeithas yn Gymraeg. Bydd ein dulliau o roi cyhoeddu'rwydd i'r cynllun a'i gynnwys yn dilyn ein

trefniadau corfforaethol arferol ar gyfer cyhoeddusrwydd, a byddant yn cynnwys sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyhoeddi mewn lleoliad amlwg ar ein gwefan. Byddwn yn sicrhau bod staff ac asiantaethau'r Gymdeithas yn gyfarwydd â'r camau sydd yn y cynllun, er mwyn sicrhau bod sylw'n cael ei roi i'r camau pryd bynnag y bo'n briodol.

